OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 622

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

## RHAN 11

### Prisiadau actiwaraidd

**Penodi actiwari'r cynllun a phrisiadau actiwaraidd**

**159.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi unigolyn i ddarparu gwasanaeth ymgynghori ar faterion actiwaraidd mewn perthynas â'r cynllun hwn ac unrhyw gynllun cysylltiedig.

(2) Actiwari'r cynllun sy'n gyfrifol am—

(a) cyflawni prisiadau o'r cynllun hwn ac unrhyw gynllun cysylltiedig; a

(b) paratoi adroddiadau ar y prisiadau.

(3) Cyn penodi unigolyn yn actiwari'r cynllun, rhaid i Weinidogion Cymru fodloni eu hunain bod gan yr unigolyn gymwysterau priodol i gwblhau prisiadau o'r cynllun hwn ac unrhyw gynllun cysylltiedig yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed o dan adran 11 o Ddeddf 2013 ("cyfarwyddiadau'r Trysorlys").

(4) Rhaid i reolwr cynllun ddarparu i actiwari'r cynllun unrhyw ddata sy'n ofynnol gan actiwari'r cynllun er mwyn cyflawni prisiad a pharatoi adroddiad ar y prisiad hwnnw.

(5) Rhaid cyflawni prisiad o'r cynllun ac unrhyw gynllun cysylltiedig a pharatoi adroddiad ar y prisiad yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

(6) Rhaid cyflawni prisiadau o'r cynllun o fewn ffrâm amser sy'n galluogi bodloni'r gofynion yng nghyfarwyddiadau'r Trysorlys mewn perthynas â dyddiadau sy'n gymwys i'r prisio.

**Cap ar gostau cyflogwyr**

**160.**—(1) Y cap ar gostau cyflogwyr ar gyfer y cynllun hwn yw 17.1% o enillion pensiynadwy aelodau o'r cynllun hwn.

(2) Os bydd cost y cynllun hwn, a gyfrifir yn dilyn prisiad yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys, yn uwch neu'n is na'r cap ar gostau cyflogwyr, o fwy na'r gorsymiau a bennir mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 12(5) o Ddeddf 2013(**1**) ("y Rheoliadau Cap Costau"), rhaid i Weinidogion Cymru ddilyn y weithdrefn a bennir ym mharagraff (3) ar gyfer cyrraedd cytundeb gyda rheolwyr cynllun, cyflogwyr ac aelodau (neu gynrychiolwyr cyflogwyr ac aelodau) ynglŷn â'r camau sy'n ofynnol er mwyn cyrraedd y targed cost a bennir yn y Rheoliadau Cap Costau.

(3) Y weithdrefn a bennir at ddibenion adran 12(6)(a) o Ddeddf 2013 yw ymgynghori gyda Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru am unrhyw gyfnod a ystyrir yn briodol gan Weinidogion Cymru gyda golwg ar gyrraedd cytundeb a gymeradwyir gan holl aelodau'r Bwrdd hwnnw.

(4) Yn dilyn ymgynghoriad o'r fath, os na chyrhaeddir cytundeb o fewn 3 mis ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i addasu'r gyfradd y mae buddion

(**1**) Gweler rheoliad 3 o O.S. 2014/575.

yn crynhoi yn unol â hi o dan reoliad 43 (swm y pensiwn ar gyfer blwyddyn gynllun) er mwyn cyrraedd y targed cost ar gyfer y cynllun hwn.